# SMR 13: Safonau Lles i Amddiffyn Anifeiliaid Fferm

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

**Amcan y gofynion hyn yw argyhoeddi'r cwsmer fod safonau lles uchel yn cael eu cynnal a bod hynny yn ei dro yn gwella diogelwch ac ansawdd bwyd. Mae'r gofynion yn diogelu lles anifeiliaid fferm trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Maen nhw'n ymdrin â phob anifail sy'n cael ei ffermio.**

**Rhaid i berchnogion a cheidwaid anifeiliaid fferm ofalu am les eu hanifeiliaid a gofalu nad ydyn nhw'n dioddef nac yn cael poen neu anaf diangen.**

## Y prif ofynion

Rhaid cadw'r safonau canlynol:

- Staff y Fferm: dylai fod digon o staff i ofalu am yr anifeiliaid a bydd ganddynt y medrau angenrheidiol i wneud y gwaith.
- Archwilio Stoc: rhaid i bob anifail sy'n cael ei gadw mewn system lle mae ei les yn dibynnu ar gael sylw'n aml, gael ei archwilio o leiaf unwaith bob dydd. Rhaid i anifeiliaid sy'n sâl neu sydd wedi cael anaf gael eu trin ar unwaith, a'u hynysu mewn adeilad addas os oes angen. Holwch filfeddyg os oes angen a gweithredu ar ei gyngor.
- Cofnodion: rhaid i berchennog neu geidwad yr anifail gadw cofnod o bob moddion a roddir am o leiaf dair blynedd.
- Rhyddid i Symud: Rhaid bod gan bob anifail ddigon o le i symud heb ddioddef na chael ei anafu'n ddiangen, hyd yn oed os yw wedi'i glymu, ei gadwyno neu ei gaethiwo.
- Adeiladau: Rhaid defnyddio deunydd adeiladu sy'n hawdd ei lanhau a'i ddiheintio. Gofalwch am yr adeilad fel nad oes ymylon miniog na darnau ymwthiol allai anafu'r anifail. Dylech gadw cylchrediad yr aer a lefelau'r llwch, y tymheredd a'r lleithder o fewn terfynau derbyniol. Peidiwch â chadw anifeiliaid mewn tywyllwch parhaol na chwaith mewn goleuni artiffisial di-dor
- Anifeiliaid sydd ddim yn cael eu cadw mewn adeilad: gofalwch lle bo angen a lle bo'n bosibl, fod ganddyn nhw gysgod rhag y tywydd, anifeiliaid ysglyfaethus a pheryglon i'w hiechyd. Bydd ganddyn nhw bob amser le sych i orwedd.
- Offer awtomatig neu fecanyddol: Rhaid archwilio offer sy'n hanfodol i iechyd a lles eich anifeiliaid o leiaf unwaith bob dydd. Os ydych yn defnyddio system awyru artiffisial, rhaid wrth system wrth gefn i warantu bod yr aer yn gallu cael ei adnewyddu.
- Bwyd, dŵr a sylweddau eraill: rhaid rhoi deiet faethlon sy'n addas i oed a rhywogaeth eich anifeiliaid, a sicrhau eu bod yn cael digon yn ddigon aml. Peidiwch â rhoi unrhyw sylwedd i'ch anifeiliaid sy'n niweidiol i'w hiechyd neu eu lles. Hefyd rhaid defnyddio offer bwydo a dyfrio sy'n diogelu bwyd a diod rhag cael ei lygru.
- Trefniadau bridio: peidiwch â dilyn trefniadau bridio naturiol nag artiffisial fyddai'n gwneud neu'n debygol o wneud i'r anifail ddioddef neu gael anaf, oni bai bod eu heffaith arno'n fyr ac yn fach, heb achosi anaf.

© Hawlfraint y Goron 2014 WG23793

## Archwiliadau maes

- I edrych ar y gofal mae'r anifeiliaid yn ei gael, ar eu hadeiladau ac ar y cofnodion gan ofalu bod ganddyn nhw le sych i orwedd.
- I ofalu bod gan y perchennog gopi o'r Codau Lles Anifeiliaid a'i fod ef a'i weithwyr wedi'u darllen.
- I ofalu bod y cofnodion meddygol yn gyfredol a bod y moddion sydd yn y cwpwrdd meddygol wedi'u cofnodi.
- I ofalu bod gan bob meddyginiaeth drwydded gan y Deyrnas Unedig.
- I ofalu nad yw'r cynnyrch yn rhy hen.
- I brofi'r larymau a'r dyfeisiau wrth gefn os oes offer awtomatig yn cael ei ddefnyddio.

## Arfer da

- Gofalwch am les yr anifail bob amser.
- Rhowch driniaeth ar unwaith i anifail sy'n sâl neu sydd wedi cael anaf.

## Am fwy wybodaeth cysylltwch â:

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn

© Hawlfraint y Goron 2014 WG23793